Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg – Cyngor Sir Ddinbych


Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3553A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Yr hyn a adolygwyd gennym a pham 4

Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 5

Cynlluniau lleihau carbon 6

# Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Cynhaliwyd y prosiect hwn i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor, gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Roedd y prosiect hwn hefyd yn gymorth i ni allu asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd lle rydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg manylach arnynt. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn ystod gwanwyn 2023 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.

3 Canolbwyntiwyd yn benodol ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gynnwys trefniadau hunanasesu
- Cynlluniau lleihau carbon

4 Roedd ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys sgyrsiau â swyddogion ac adolygu dogfennau perthnasol.

5 Mae'r prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd gweithdy gyda'r Uwch-dîm Rheoli ym mis Chwefror 2023 lle gwnaethom rannu canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â rhai agweddau ar y gwaith hwn. Defnyddiwyd y gweithdy hefyd i gasglu safbwyntiau uwch-reolwyr ar y risgiau archwilio allweddol mewn perthynas â'r Cyngor ac i lywio ein blaengynlluniau.

# Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau ei hun ei fod yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

6 Gwnaethom adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021).

7 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu perfformiad ac ymgynghori ac adrodd ar berfformiad drwy hunanasesiad. Rhaid i gynghorau gyhoeddi hunanasesiad o'u perfformiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Yn ystod 2021-22 mae'r Cyngor wedi cymryd camau i roi'r dyletswyddau hunanasesu ar waith.

8 Cyhoeddwyd hunanasesiad cyntaf y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021, blwyddyn cyn bod gofyn amdano o dan y Ddeddf. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r saith maes llywodraethu a argymhellir gan ganllawiau statudol y Ddeddf, yn ogystal ag ymdrech fwy unedig i gatalogio gweithgarwch prif gyfarfodydd y Cyngor, eitemau newyddion allweddol, ac adroddiadau gan archwilwyr mewnol a rheoleiddwyr allanol. Er mwyn gwneud eu hunanasesiad diweddaraf yn fwy hygyrch, mae'r Cyngor wedi llunio datganiadau cryno lefel uchel iawn sy'n asesu ein perfformiad, gan ddefnyddio gwybodaeth o adroddiadau Diweddaru Perfformiad chwarterol.

9 Roedd yr adroddiadau Diweddaru Perfformiad chwarterol (yn cefnogi'r egwyddor o asesu parhaus) yn nodi camau ar gyfer gwella yn ystod eu cynhyrchu. Yn ogystal ag adolygu cyrff tystiolaeth mewnol ac allanol i lywio ei hunanasesiad, mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n flynyddol â rhestr gynhwysfawr o randdeiliaid ynghylch perfformiad ein swyddogaethau (amcanion a llywodraethu).

10 Yn ystod 2021, diweddarodd y cyngor ei Arolwg Preswylwyr (a elwir yn 'Arolwg Rhanddeiliaid' erbyn hyn) i ofyn cwestiynau penodol sydd bellach yn ofynnol o dan y Ddeddf. Darperir dadansoddiad o'r canlyniadau yn adroddiadau Diweddaru Perfformiad y Cyngor, a bydd y cyngor yn cynnal ymarferion ymgysylltu tebyg yn flynyddol fel rhan o'i ddull Hunanasesu.

11 Mae'r Cyngor wedi diweddaru Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adlewyrchu Deddf 2021. Mae aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â Deddf 2021, gyda thraean o'r pwyllgor yn bersonau lleyg. Cwblhawyd y broses o recriwtio lleygwyr ar amser ac mae'r broses o oruchwylio cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio Sir Ddinbych gan staff Archwilio Cymru yn ystod 2022 yn dangos bod y trefniadau newydd yn gweithio'n foddhaol i bob golwg. Mae'r lleygwyr, ynghyd â chynghorwyr etholedig sy'n aelodau o'r Pwyllgor Llywodraeth Archwilio, wedi cael hyfforddiant rhagarweiniol ar eu rôl.

# Cynlluniau lleihau carbon

## Cyd-destun

12 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030[1], a oedd bwrw golwg ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei wireddu. Nododd ein gwaith rwystrau sylweddol, cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ymdrin â nhw ar y cyd i wireddu'r uchelgais ar y cyd. Er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, nodwyd gennym fod yn rhaid iddynt gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

13 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn galw ar gyrff cyhoeddus i weithredu yn y pum maes canlynol:

- cryfhau arweinyddiaeth a dangos cydgyfrifoldeb drwy gydweithio effeithiol;
- egluro cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y broses o roi camau gweithredu ar waith;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- gwybod beth yw eich bylchau o ran sgiliau a chynyddu capasiti; a
- gwella ansawdd data a threfniadau monitro data i ategu eich penderfyniadau.

14 Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu a oedd Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") yn gwneud cynnydd clir o ran cyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol i ddod yn Gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad lleol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 "Cyflawni Uchelgeisiau Amgylcheddol" fod y Cyngor yn gwneud cynnydd rhagorol o ran ymgorffori ei uchelgeisiau amgylcheddol. Nodwyd gennym fod y Cyngor wedi symud yn gyflym i ymgorffori ei uchelgeisiau amgylcheddol yn ei fframweithiau cynllunio strategol, mae'n cyfathrebu ei uchelgeisiau'n dda ac mae ganddo fesurau sylfaenol ar waith gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sefydledig. Nid yw cost lawn yr uchelgais yn hysbys eto. Byddai mapio rhanddeiliaid mewn modd mwy cynhwysfawr yn cryfhau ymgysylltiad ymhellach, a bydd adrodd dros y flwyddyn nesaf yn helpu i ymgorffori'r uchelgeisiau amgylcheddol ac yn galluogi'r mesurau i esblygu.

15 Mae'r canfyddiadau hyn yn perthyn o fewn cyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am fwy o gyflymder ac arweinyddiaeth gryfach ledled Cymru i leihau allyriadau carbon.

[1] Archwilio Cymru, Ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero-net yn cael ei gyflawni, yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol, Gorffennaf 2022.

## Argymhellion

**Arddangos 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Cyngor gostio'n llawn ei gynllun gweithredu i sicrhau bod modd cyflawni'r cynllun. Dylai hyn gynnwys costau manwl ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac amcangyfrifon ehangach ar gyfer gweddill y cynllun. |

Archwilio Cymru
Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.